

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025

The A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway from Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to Junction 3 (Pencaledog Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025

Gwnaed 16 Mehefin 2025

Made 16 June 2025

Yn dod i rym 23 Mehefin 2025

Coming into force 23 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mehefin 2025.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway from Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to Junction 3 (Pencaledog Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025 and this Order comes into force on 23 June 2025.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 23 Mehefin 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

- 3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.
- 4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.
- 5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 2 hyd at bwynt 500 o fetrau i’r dwyrain o’r ffordd ymadael tua’r dwyrain wrth

Interpretation

2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 23 June 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

- 3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.
- 4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.
- 5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 16 June 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 230 metres west of the centre-point of Junction 2 to a point 500 metres east of the eastbound exit slip road at Junction 3, including

Gyffordd 3, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3.

the eastbound entry slip road at Junction 2 and eastbound exit slip road at Junction 3.